OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 544

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017

## RHAN 2

## Y Weithdrefn Gychwynnol

**Hysbysiad i bersonau â buddiant**

**17.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl i bersonau â buddiant, fel bo'r personau hynny yn ei gael o fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad dechrau.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1)—

(a) datgan enw'r apelydd a chyfeiriad y safle y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;

(b) disgrifio testun yr apêl;

(c) nodi'r materion yr hysbyswyd yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn eu cylch o dan reoliad 15(2);

(d) datgan y bydd copïau o unrhyw sylwadau a gyflwynir i'r awdurdod cynllunio lleol gan bersonau â buddiant yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru a'r apelydd;

(e) datgan y bydd unrhyw sylwadau o'r fath yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth iddynt benderfynu ar yr apêl oni chânt eu tynnu'n ôl o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dechrau;

(f) datgan mewn perthynas ag apelau ac eithrio apelau deiliad tŷ, apelau ynghylch caniatâd i arddangos hysbyseb ac apelau masnachol bach y caniateir anfon sylwadau pellach at Weinidogion Cymru fel eu bod yn dod i law o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dechrau, a rhaid anfon dau gopi o unrhyw sylwadau.